

**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL
(MEMORANDWM RHIF 3)**

Y BIL MENTER: COD RHEOLEIDDWYR AC AWDURDOD SYLFAENOL

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog (“RhS”) 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron y Cynulliad Cenedlaethol os yw Bil Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at bwrpas sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol neu sy’n addasu’r cymhwysedd hwnnw.
2. Cyflwynwyd y Bil Menter (y “Bil”) yn Nhŷ’r Arglwyddi ar 16 Medi 2015. Mae’r Bil i’w weld yn:

<http://services.parliament.uk/bills/2015-16/enterprise.html>

Crynodeb o’r Bil a’i Amcanion Polisi

3. Noddir y Bil gan yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau (“BIS”). Mae Llywodraeth y DU wedi datgan mai prif amcanion polisi’r Bil yw:
 - Cadarnhau statws y DU fel y lle gorau yn Ewrop i ddechrau a datblygu busnes, drwy leihau gwaith papur a’i gwneud yn haws i fusnesau bach ddatrys anghydfod yn gyflym ac yn rhwydd; a
 - Gwobrwyo entrepreneuriaeth, creu swyddi a chyflogau uwch i bawb, a chreu cyfleoedd i bobl ym mhob cam o’u bywydau.
4. Mae naw rhan i’r Bil:
 - Mae Rhan 1 yn gwneud darpariaeth i sefydlu Comisiynydd Busnesau Bach;
 - Mae Rhan 2 yn darparu ar gyfer ehangu’r targed yn ymwneud ag effaith rheoliadau ar fusnesau (BIT) er mwyn cynnwys rheoleiddwyr ac mae’n ceisio newid y ffordd y caiff y broses reoleiddio ei chynnal gan reoleiddwyr, drwy’r Ddyletswydd Twf a Chod y Rheoleiddwyr;
 - Mae Rhan 3 yn darparu ar gyfer ehangu cynllun yr Awdurdod Sylfaenol;
 - Mae Rhan 4 yn gwneud darpariaethau i gyflwyno targed ar gyfer nifer y prentisiaid sy’n gweithio i gyrff yn y sector cyhoeddus ac i atal y term ‘Prentisiaeth’ rhag cael ei gamddefnyddio;

- Mae Rhan 5 yn gwneud darpariaethau i gyflwyno rhwymedigaeth gyfreithiol i dalu hawliadau yswiriant o fewn cyfnod rhesymol;
- Mae Rhan 6 yn gwneud darpariaethau i Asiantaeth y Swyddfa Brisio rannu gwybodaeth â llywodraeth leol am ardrethi annomestig mewn perthynas ag eiddo a threthdalwyr ac mae hefyd yn diwygio'r system apêl mewn perthynas â threthi annomestig;
- Mae Rhan 7 yn gwneud darpariaethau sy'n diweddarau Deddf Datblygu Diwydiannol 1982;
- Mae Rhan 8 yn gwneud darpariaethau i gapio taliadau ymadael i weithwyr yn y sector cyhoeddus; ac
- Mae Rhan 9 yn gwneud darpariaethau'n ymwneud â diwygiadau canlyniadol, darpariaethau trosiannol, darpariaethau arbed a darpariaethau cychwyn.

Darpariaethau yn y Bil y ceisir cydsyniad ar eu cyfer

Gwelliannau i Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006

5. Mae adran 22 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 yn gosod dyletswydd ar berson sy'n arfer rhai swyddogaethau rheoleiddio penodol i ystyried unrhyw god ymarfer a gyhoeddwyd gan Weinidog y Goron o dan adran 22. Yr enw a roddir ar y cod ymarfer presennol, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2014, yw Cod y Rheoleiddwyr.
6. Mae cymal 15 yn diwygio'r Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol drwy ei gwneud yn ofynnol i reoleiddiwr gyflwyno adroddiad ar yr effaith y mae cyflawni'r ddyletswydd i ystyried y Cod wedi'i chael ar y modd y mae wedi arfer y swyddogaethau perthnasol. Rhaid i'r adroddiad gynnwys asesiad o farn busnesau am y modd y cafodd y ddyletswydd ei chyflawni, yr effaith ar fusnesau a disgrifiad o'r effaith y mae'r rheoleiddiwr yn disgwyl y bydd y ddyletswydd yn ei chael ar ei swyddogaethau perthnasol yn y dyfodol.
7. Mae cymal 15 hefyd yn rhoi pwerau i Weinidog y Goron gyhoeddi canllawiau ar yr adroddiad perfformiad ac i wneud cais am wybodaeth gan reoleiddwyr perthnasol am y modd y maent yn gweithredu o safbwynt y cod a'r hyn y mae busnesau'n ei feddwl am effaith hynny.
8. Ni fydd y dyletswyddau ychwanegol hyn yn gymwys i gynghorau sir neu gynghorau bwrdeistref sirol Cymru; awdurdodau tân ac achub Cymru; nac awdurdodau iechyd porthladdoedd Cymru.
9. Mae'r ddyletswydd yn adran 22 i ystyried y Cod yn gymwys pan fydd person yn arfer swyddogaeth a bennwyd drwy orchymyn o dan adran 24. Cyflwynwyd gwelliant i adran 24 i newid y modd y rhoddir y pŵer i wneud gorchymyn i Weinidogion Cymru a Gweinidog y Goron.

10. Mae pŵer presennol Gweinidogion Cymru o dan adran 24 yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu swyddogaethau y gellir eu harfer dim ond yng Nghymru neu mewn perthynas â Chymru. Cafodd gwelliant (NC1) ei gyflwyno yn Senedd y DU ar 2 Chwefror a'i gyhoeddi ar 3 Chwefror gan y Gwir Anrh. Anna Soubry AS, y Gweinidog dros Fusnesau Bach, Diwydiant a Menter, i roi pŵer i Weinidogion Cymru bennu swyddogaeth reoleiddio, i'r graddau y gellir ei harfer mewn perthynas â Chymru, os yw'r swyddogaeth, neu i'r graddau y mae'r swyddogaeth, yn ymwneud â materion -
 - sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, neu
 - y caiff Gweinidogion Cymru arfer swyddogaethau mewn perthynas â nhw.
11. Mae gorchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 24 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Cyn gwneud gorchymyn, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r person y caiff ei swyddogaethau eu pennu yn y gorchymyn ac unrhyw bersonau eraill y maent yn ystyried y dylid ymgynghori â nhw.
12. Mae cymal 17 o'r Bil yn diddymu adran 24(5) o'r Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol. Ar hyn o bryd, mae adran 24(5) yn atal swyddogaethau rheoleiddio Ofgem, Ofcom, y Swyddfa Rheoleiddio Rheilffyrdd ac Ofwat rhag bod yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd i ystyried yr egwyddorion rheoleiddio gwell yn adran 21 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol a'r Cod o dan adran 22. Ni fydd diddymu'r adran hon, ynddo'i hun, yn gosod y ddyletswydd hon ar y rheoleiddwyr hyn ond mae'n cael gwared ar rwystr deddfwriaethol yn y cyswllt hwn.
13. Mae Llywodraeth y DU wedi datgan mai un o'i hamcanion yw helpu entrepreneuriaid a hyrwyddo busnes. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cefnogi'r amcanion hyn. Ym marn Llywodraeth Cymru, mae'r ddarpariaeth yng nghymal 15 yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y mae'n ymwneud â pharagraff 4 yn Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, sy'n cynnwys "Adfywio a datblygu economaidd, gan gynnwys datblygiad cymdeithasol cymunedau, adennill tir diffaith a gwella'r amgylchedd" a 'Hybu busnes a chystadleurwydd."
14. Ym marn Llywodraeth Cymru, mae'r ddarpariaeth yng nghymal 17 yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y mae'n ymwneud â "Chyflenwad dŵr, rheoli adnoddau dŵr (gan gynnwys cronfeydd dŵr), ansawdd dŵr a chynrychioli defnyddwyr gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth" (paragraff 19 yn atodlen 7 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006); "Hybu busnes a chystadleurwydd" paragraff 4 yn Atodlen 7); 'Diogelu'r amgylchedd gan gynnwys llygredd, niwsans a sylweddau peryglus" (paragraff 6 yn Atodlen 7).

Gwelliannau i Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sanctsiynau 2008

15. Mae Rhan 3 (cymal 19) o'r Bil yn darparu ar gyfer ehangu cynllun yr Awdurdod Sylfaenol. Mae'r Bil yn disodli Rhan 2 (adrannau newydd 22A i 30D) o Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sanctsiynau 2008.
16. Mae adran newydd 22A yn diffinio "person a reoleiddir" ("*regulated person*") a "grŵp a reoleiddir" ("*regulated group*") at ddibenion Rhan 2. O dan adran 23A, caiff yr Ysgrifennydd Gwladol enwebu awdurdod sylfaenol mewn perthynas â pherson a reoleiddir neu grŵp a reoleiddir.
17. Mae adran newydd 22B yn darparu mai "rheoleiddiwr cymwys" ("*qualifying regulator*") yw rheoleiddiwr y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol ei enwebu'n awdurdod sylfaenol o dan adran 23A. Mae adran 22B yn darparu y caiff awdurdod lleol fod yn rheoleiddiwr cymwys ac mae hefyd yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol, drwy gyfrwng rheoliadau, i bennu "rheoleiddiwr penodedig" ("*specified regulator*"), nad yw'n awdurdod lleol, a all fod yn "rheoleiddiwr cymwys" at ddibenion Rhan 2.
18. Mae'r adran newydd 22C yn diffinio "swyddogaeth berthnasol" ("*relevant function*") at ddibenion Rhan 2 - swyddogaeth yw hon y gellir ei chynnwys yn swyddogaethau partneriaeth yr awdurdod sylfaenol o dan adran 23A. Mewn perthynas ag awdurdodau lleol Cymru a Lloegr, mae'r swyddogaethau perthnasol y bydd Rhan 2 yn gymwys iddynt yr un fath â'r swyddogaethau o fewn cwrmpas y cynllun presennol. Mewn perthynas â "rheoleiddwyr penodedig" ("*specified regulators*"), swyddogaeth berthnasol yw swyddogaeth reoleiddio y mae'r rheoleiddiwr hwnnw'n ei harfer ac sydd wedi'i phennu yn y rheoliadau a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Dim ond swyddogaethau sy'n swyddogaethau perthnasol mewn cysylltiad ag awdurdodau lleol Cymru a Lloegr, neu'r hyn sy'n cyfateb i swyddogaeth o'r fath, y caiff y rheoliadau eu pennu.
19. O dan adran newydd 23A, caiff yr Ysgrifennydd Gwladol enwebu "rheoleiddiwr cymwys" i fod yn awdurdod sylfaenol ar ran y personau a reoleiddir a'r grwpiau a reoleiddir. Mae adrannau newydd 23B a 23E yn gwneud darpariaeth ynghylch enwebu awdurdod sylfaenol, cydgyssylltydd grŵp a reoleiddir ac aelodau grŵp a reoleiddir.
20. Mae adrannau 24A i 26C yn cynnwys darpariaeth ynghylch swyddogaethau'r awdurdod sylfaenol ac mae adran 27A yn galluogi'r awdurdod sylfaenol i godi ffioedd y mae'n eu hystyried yn rhesymol ar bersonau a reoleiddir a chydgyssylltwyr grwpiau a reoleiddir.
21. Mae adran 28A yn darparu ar gyfer rhai "rheoleiddwyr ategol" ("*supporting regulators*") a chanddynt "swyddogaethau dynodedig" ("*designated functions*") i wneud unrhyw beth y maent yn ei ystyried yn briodol i gynorthwyo awdurdod sylfaenol i baratoi cyngor a chanllawiau o dan adran 24A neu gynllun arolygu o dan adran 26A. "Rheoleiddiwr ategol" yw person sydd â swyddogaethau rheoleiddio ac sydd wedi'i bennu yn y rheoliadau a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Swyddogaethau

rheoleiddio a bennwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol yw swyddogaethau dynodedig.

22. Mae adran 28B yn darparu bod yn rhaid i “reoleiddwyr cyflenwol” (“*complementary regulators*”) weithredu’n unol â chyngor a chanllawiau’r awdurdod sylfaenol wrth iddynt arfer eu “swyddogaethau dynodedig” mewn perthynas â pherson a reoleiddir neu aelod o grŵp a reoleiddir. Person sydd â swyddogaethau rheoleiddio ac sydd wedi’i bennu yn y rheoliadau a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol yw rheoleiddiwr cyflenwol.
23. Mae adran 28B hefyd yn darparu bod yn rhaid i’r Ysgrifennydd Gwladol bennu yn y rheoliadau y swyddogaethau dynodedig y bydd y rheoleiddiwr ategol yn eu harfer.
24. Mae adran 30A yn darparu y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol roi canllawiau i reoleiddwyr cymwys, rheoleiddwyr ategol, rheoleiddwyr cyflenwol a chydgyssylltwyr ynghylch gweithredu Rhan 2. Rhaid ymgynghori â Gweinidogion Cymru os yw canllawiau i reoleiddwyr ategol yn gwneud darpariaeth ynghylch pa swyddogaethau sy’n ymwneud ag arfer swyddogaeth partneriaeth o dan adran 28A.
25. Mae Atodlen 3, sy’n disodli Atodlen 4 i Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sanctsiynau (atodlen newydd 4A), yn gosod allan y weithdrefn ar gyfer cyfeirio camau gorfodi arfaethedig at yr Ysgrifennydd Gwladol.
26. Mae rheoliadau o dan adrannau 22B, 22C, 28A a 28B, fel y’u drafftwyd ar hyn o bryd, yn nodi y bydd angen cydsyniad Gweinidogion Cymru i bennu rheoleiddwyr a chanddynt swyddogaethau’n ymwneud dim ond â materion sy’n berthnasol i Weinidogion Cymru neu i bennu swyddogaethau rheoleiddio i’r graddau y gellir eu harfer yng Nghymru mewn perthynas â materion sy’n berthnasol i Weinidogion Cymru. Bydd gwelliannau 1-9 a’r cymal newydd a fewnosodir gan welliant NC2 a gyflwynwyd yn Senedd y DU ar 2 Chwefror ac a gyhoeddwyd ar 3 Chwefror gan y Gwir Anrh. Anna Soubry, y Gweinidog dros Fusnesau Bach, Diwydiant a Menter, yn diwygio’r darpariaethau hyn i ddarparu y bydd yn rhaid cael cydsyniad Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau o’r fath i bennu rheoleiddwyr a chanddynt swyddogaethau’n ymwneud dim ond â materion a ddatganolwyd i Gymru, neu i bennu swyddogaethau rheoleiddio i’r graddau y gellir eu harfer mewn perthynas â Chymru sy’n ymwneud â materion a ddatganolwyd i Gymru (sef materion sy’n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad neu faterion y caiff Gweinidogion Cymru arfer swyddogaethau mewn perthynas â nhw).
27. Mae Llywodraeth y DU wedi datgan mai un diben y darpariaethau yw cynorthwyo entrepreneuriaid a hybu busnes, ac mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi’r amcanion hyn. Ym marn Llywodraeth Cymru, mae darpariaethau yng nghymal 19 o’r Bil yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i’r graddau y maent yn berthnasol i “adfywio a datblygiad economaidd” a “hyrwyddo busnes a

chystadleurwydd” o dan baragraff 4 yn Rhan 1, Atodlen 7 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

28. Mae'r holl ddarpariaethau a amlinellir ym mharagraffau 5 i 26 uchod yn gymwys mewn perthynas â Chymru.

Manteision defnyddio'r Bil hwn yn hytrach na deddfwriaeth y Cynulliad

29. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn gan fod y deddfwriaeth sy'n sail i God y Rheoleiddwyr a'r cynllun Awdurdod Sylfaenol wedi'i gosod allan yn Neddfau Senedd y DU, ac mae'r Bil Menter yn diwygio'r Deddfau hynny. Mae'r darpariaethau yn y Deddfau yn gymwys i Gymru a Lloegr (yn ogystal â'r Alban a Gogledd Iwerddon) felly, drwy wneud y ddarpariaeth mewn Deddf Senedd y DU, gellir sicrhau bod y broses deddfu'n gydlynol ac yn gyson.

Goblygiadau ariannol

30. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ynghlwm wrth gydsynio â'r darpariaethau a nodir yn y Bil.

Leighton Andrews AC
Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus
Chwefror 2016